Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Sgiliau digidol i fusnesau

## Dyfarniad

Lefelau 1 a 2



## Y cyrsiau

Mae'r cymhwyster pwrpasol hwn wedi'i ariannu'n llawn ac wedi'i gynllunio i uwchsgilio staff sy'n gweithio mewn rolau gweinyddol a swyddi eraill mewn swyddfeydd. Mae'r dyfarniad yn cynnwys amrywiaeth o unedau y gall y dysgwr eu hastudio er mwyn diwallu gofynion sefydliadol a gofynion y rôl.

Mae'r cymhwyster ar gael ar ddwy lefel:

- Dyfarniad Lefel 1 mewn Sgiliau Digidol i fusnesau
- Dyfarniad Lefel 2 mewn Sgiliau Digidol i fusnesau

Bydd y cwrs yn cymryd 1 mis i'w gwblhau a bydd yn cael ei gyflwyno fesul pedwar sesiwn

## Ar gyfer pwy mae'r cwrs yn addas?

Mae'r cymhwyster sgiliau digidol i fusnesau yn addas ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn swyddi megis gweinyddwyr cymorth busnes, staff swyddfa iau, goruchwylwyr swyddfa, cynorthwywyr personol, ysgrifendyddion neu dderbynyddion o amrywiaeth o sectorau.

- Mae'r cwrs Lefel 1 yn addas ar gyfer unigolion sy'n gyfarwydd â meddalwedd a chymwysiadau Microsoft Office.
- Mae'r cymhwyster Lefel 2 yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen o ddyfarniad Lefel 1, neu ddysgwyr sy'n meddu ar rywfaint o sgiliau Microsoft Office sydd yn dymuno uwchsgilio ymhellach.

## Darpariaeth

Bydd gan bob dysgwr diwtor/asesydd dynodedig a fydd yn gweithio’n agos gyda nhw i sicrhau bod yr unedau a ddewiswyd yn cyd-fynd â rolau’r unigolyn a blaenoriaethau’r sefydliad. Bydd y tiwtor/asesydd yn cyflwyno pedair sesiwn addysgol dros Teams i fynd i ymdrin â chynnwys y cwrs a gofynion asesu.

Efallai bydd angen i’r dysgwr gwblhau tystiolaeth aseiniad y tu allan i’r sesiynau addysgol sydd wedi’u eu hamserlenni. Gellir trefnu sesiynau wyneb yn wyneb mewn ystafell ddosbarth os oes digon o ddiddordeb.

Mae’r cwrs wedi’i strwythuro mewn fformat hyblyg a chyflym, gan ei gwneud hi’n haws ei ddilyn o amgylch ymrwymiadau gwaith. Am y rheswm hwn, byddwn ni’n cwblhau asesiad cychwynnol cyn bod dysgwyr yn dechrau’r cwrs i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhoi ar y lefel gywir. Byddwn ni’n trafod opsiynau i symud ymlaen i lefelau uwch gyda’r dysgwr ar ôl cwblhau’r cwrs.

## Asesu

I gwblhau’r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, bydd gofyn i ddysgwyr ymgymryd â thasgau ymarferol a sesiynau addysgu byw dan arweiniad. Byddant yn ennill gwybodaeth, offer a thechnegau sy’n ymwneud â’u hunedau, fel y gallant gwblhau tasgau a chreu portffolio o dystiolaeth.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn defnyddio Smart Asessor, sef meddalwedd rheoli portffolios ar-lein sy’n caniatáu’r darparwr a’r dysgwr olrhain cynnydd dysgwyr yn effeithiol.

Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

## Unedau gorfodol

- Technegau prosesu geiriau
- Technegau taenlenni
- Rheoli e-byst yn y gweithle

## Unedau dewisol

Gellir dewis a chyflwyno'r unedau dewisol isod yn ogystal ag unedau dewisol eraill:

- Creu cyflwyniadau digidol
- Cydweithredu digidol

## Manteision y cwrs

- Ennill cymhwyster cydnabyddedig
- Datblygu sgiliau TG allweddol
- Datblygu gwybodaeth TG allweddol
- Hwyluso dilyniant gyrfa
- Datblygiad proffesiynol
- Datblygiad personol
- Cymhwysedd mewn TG

**Cysylltwch â ni:**
**training@gcs.ac.uk | 01792 284400 | gcs.ac.uk**